PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 29 Gorffennaf 17, 2025 50c.

## Derbyn pedair

Cawsom Sul hyfryd a bendithiol yng Ngellimanwydd, Rhydaman oherwydd yn oedfa'r bore ar Sul 6 Gorffennaf derbyniwyd pedair o ferched ifanc yr eglwys yn gyflawn aelodau trwy ddeheulaw cymdeithas yr eglwys a estynnwyd iddynt gan y gweinidog y Parchg Emyr Gwyn Evans. Y pedair, a godwyd ar fron yr eglwys ac yn blant yr eglwys oedd Catrin Haf Brodrick, myfyrwraig feddygol yng Nghaerdydd, Elen Gwen Thomas a Marged Alaw Thomas y ddwy'n efeilliaid, ac Efa Haf Williams, y tair yn ddisgyblion ym mlwyddyn 12 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth. Roedd y pedair wedi eu bedyddio yn fabanod yn yr eglwys ac mor hyfryd oedd gweld had yr eglwys yn dod i



aeddfedrwydd gyda'r pedair yn datgan eu ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist ac yn gwneud cyfamod personol i dderbyn braint a chyfrifoldeb cyflawn aelodaeth o Eglwys Crist.

### Ffydd i fyw

Fel ymgeiswyr am aelodaeth cawsant eu paratoi trwy eu cyflwyno i athrawiaethau sylfaenol y ffydd Gristnogol a hyn trwy gyflwyno i bob un y gyfrol *Ffydd i Fyw: Y Credo Cristnogol a'i ystyr* (Cyhoeddiadau'r Gair), sef cyfrol yn egluro cynnwys Credo'r Apostolion gan ddiffinio ei chymalau a'u cadarnhau trwy ddyfyniadau ysgrythurol o'r Beibl. Credo sy'n ein hatgoffa am sylfaen ein ffydd wrth gredu yn Nuw sydd wedi ei amlygu i ni yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân a chred yn yr Eglwys lân gatholig a chymundeb y saint, sef, pwysigrwydd y gymdeithas Gristnogol yn yr Eglwys fyd-eang a'r eglwys leol.

### Cynnwys y ffydd

Cyn Sul y derbyn cawsom noson yng nghwmni ein gilydd ac yng nghwmni rhieni'r darpar ymgeiswyr a chwmni rhai o ddiaconiaid Gellimanwydd. Cawsom sgwrsio am gynnwys y ffydd drwy gyfrwng y Credo ac am fraint a chyfrifoldeb bod yn gyflawn aelod yn Eglwys Crist. Wedi eu hatgoffa am bwysigrwydd ac arwyddocâd y cyfamod y byddai pob un yn ei wneud wrth ddod yn aelod, braf oedd cael tystiolaeth eu rhieni a'r diaconiaid oedd yn bresennol pan wnaethant rannu eu profiadau a'u

*parhad ar dudalen 2*

## Eglwysi Ewrop yn Budapest

Y tro cyntaf i mi fod yn Budapest, Hwngari oedd Awst 1995, bron 30 mlynedd union yn ôl. Roeddwn yno yn darlithio ym Mhrifysgol Economeg Budapest (erbyn hyn, Prifysgol Corvinus). Saif y Brifysgol ar lannau afon Donwy, gyferbyn i westy byd-enwog Gelert. Mae'n ddinas â'i hanes cyffrous yn ymestyn o gyfnod y Celtiaid (600 CC) trwy'r cyfnod Rhufeinig (fe'i hadnabyddid fel Aquincum) i'r Gwrthgodiad Hwngaraidd yn 1956, i'r presennol. Er 1995 bûm yn Budapest rhyw dair gwaith, y diweddaraf o'r ymweliadau hynny am dridiau ganol mis Mehefin eleni. Y tro hwn, cynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng nghyfarfod Rhanbarth Ewrop o Gymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (WCRC) oeddwn.



*Cynrychiolwyr yr Eglwysi yn Budapest – Mehefin 2025*

### Heriau eglwysi Ewrop

Bu'n dridiau prysur! Ym Mhencadlys Eglwys Ddiwygiedig Hwngari (Magyarországi Református Egyház) roeddem yn cyfarfod – swyddfeydd a leolir yn hen ddinas Pest, ar lan ddwyreiniol afon Donwy. Clywsom lawer o newyddion o wahanol eglwysi diwygiedig Ewrop. Buom hefyd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol ynghyd â thrafod beth yw ystyr tystiolaeth a sut mae tystiolaethu yn ein cyd-destun ni yn Ewrop. Amhosibl crynhoi popeth mewn erthygl fer.

Daeth yn amlwg mai un o'r heriau mawr a wyneba eglwysi Ewrop yw sut mae ymateb i ymfudo. Bu trafodaeth dreiddgar ar urddas dynol a thriniaeth mudwyr; onid yw pob person wedi'i greu ar ddelw Duw, gan haeddu urddas, lletygarwch ac amddiffyniad. Cyflwynodd eglwysi'r Almaen a'r Eidal ddadleuon cryf

*parhad ar dudalen 6*

# Derbyn pedair – parhad

tystiolaeth ynghylch fel yr ymdeimlent â braint cael perthyn i'r eglwys leol.

### Dwyn Ffrwyth

Wrth ddweud am bwysigrwydd y gymdeithas Gristnogol atgoffwyd y gynulleidfa nad yw'r gair sant, yn yr unigol, yn ymddangos yn y Testament Newydd ond mai cyfeirio at saint, yn y lluosog a wneir, saint daearol yng nghymdeithas Eglwys Crist, cymundeb y saint. Nid trwy wagle y mae'r Ysbryd Glân yn gweithio ond trwy sianelau, gan amlaf trwy gymdeithas pobl yr Arglwydd, ac apeliwyd ar yr aelodau ifanc, a phob aelod ar lyfrau'r eglwys, i gofio eu haddewid i fod yn ffyddlon i'r gymdeithas ac i beidio â chadw draw o'r addoliad yn oedfaon yr eglwys.

Trwy gyfrwng y tomato wedyn, hynny yw, yr un a gynhyrchir mewn tŷ gwydr, adref efallai, sydd wedi cael cyfle i aeddfedu yn naturiol ac araf, ac nad ydynt hafal o ran eu harogl na'u blas i'r tomatos a brynwn yn yr archfarchnad, soniwyd am y pwysigrwydd o aeddfedu yng Nghrist trwy arddel cymdeithas yr eglwys, trwy ddarllen gair Duw ac ymarfer defosiwn.

Gorffennwyd trwy ddyfynnu geiriau'r Apostol Paul, 'Gan eich bod wedi derbyn Crist Iesu yr Arglwydd, dylech fyw ynddo. Cadwch eich gwreiddiau ynddo, gan gael eich adeiladu ynddo, a'ch cadarnhau yn y ffydd fel y'ch dysgwyd, a bod yn ddibrin eich diolch.' (Colosiaid 2:6-7).

### Cyfamod eglwys

Wedi'r bregeth, daeth y pedair ymlaen at y bwrdd cymun, ac wedi gwrando arnynt yn gwneud eu haddewidion cawsant eu derbyn yn gyflawn aelodau trwy ddeheulaw cymdeithas. Hyfryd hefyd wedi eu derbyn oedd cael holl aelodau yr eglwys oedd yn bresennol yn yr oedfa i gydadrodd y Cyfamod Eglwys, 'Cyflwynwn ein hunain i'r Arglwydd, gan gyfamodi yn ei bresenoldeb i gyd-rodio yn ôl ei Air. Cynorthwyed Duw ni.' Wedi i bawb adnewyddu eu cyfamod eglwys offrymwyd gweddi, a gweinyddwyd y cymundeb, gyda'r aelodau ifanc newydd y bore hwn y cyntaf i dderbyn yr elfennau.

Ar ddiwedd yr oedfa cyflwynwyd i'r pedair ar ran yr eglwys gopi yr un o beibl.net Cawsom oedfa fendithiol i'n calonogi ymlaen i'r dyfodol, ac a fydd yn destun siarad am ein llawenydd am beth amser

**Emyr Gwyn Evans**

# Adroddiad Blynyddol yr Ysgrifennydd Cyffredinol

*Dyma ran gyntaf Adroddiad Blynyddol y Parchg Dyfrig Rees a draddodwyd yng Nghyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn.*



Annwyl Lywydd a chyfeillion,

Y mae'n braf iawn eich gweld, un ac oll y prynhawn, a chael cyfle i'ch cyfarch. Carwn ddiolch yn y lle cyntaf, i gyfeillion eglwysi Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd am ein gwahodd ni yma i'w plith ac i'r ardal hyfryd hon o Gymru ac am drefnu cartref inni yn y man godidog hwn. Gwerthfawrogwn gymorth a chefnogaeth barod y pwyllgor trefnu dan gadeiryddiaeth y Parchg Aled Davies.

Ffaith ddiddorol a gogleisiol hefyd, yw honno am Henry Maurice, un o blant y fro hon, un o'r tadau Piwritanaidd, yn rhoi geiriau ymyl y ddalen yn ail ran *Cannwyll y Cymry* er mwyn egluro i bobl y gogledd ystyr rhai o eiriau ac ymadroddion deheuol y Ficer Rhys Prichard. Wel, does dim amheuaeth y byddwn yn deall ein gilydd y tridiau hyn.

Mae'n fanteisiol iawn ein bod yn cyfarfod mewn llecyn mor arbennig, gyda'i olygfeydd hardd a'i awyrgylch hyfryd, oherwydd y mae hynny ynddo'i hunan yn gwarantu nad aiff neb oddi yma heb ei fendithio. Gofid calon inni i gyd yw'r ffaith bod y Parchg Glenys Jones, Pwllheli, un fu mor frwd i'n cael ni yma, yn methu bod gyda ni oherwydd afiechyd. Danfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau iddi.

### Staff

Gwaith dymunol yw diolch i'm cydweithwyr yn Nhŷ John Penri am eu gwaith a'u cydweithrediad dros y flwyddyn. Fel y gwyddoch, ymunodd y Parchg Jill-Hailey Harries, â'r tîm ddechrau'r flwyddyn ac y mae hithau'n setlo'n dda i'w gwaith, â'r galwadau ddaw iddi o du'r eglwysi yn cynyddu'n wythnosol. Gobeithiwn benodi olynydd i Elinor Wyn Reynolds ymhen rhai wythnosau wrth iddi hithau fy olynu innau a dod at ddesg yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddymuno pob bendith a daioni i Elinor wrth iddi hithau fel ein Hysgrifennydd Cyffredinol newydd, hebrwng yr Undeb i'r bennod nesaf yn ei hanes.

Wrth i'm tymor gwasanaeth innau dynnu tua'i derfyn carwn ddiolch i chi fel Undeb am roddi imi'r fraint fawr o gael bod yn Ysgrifennydd Cyffredinol a chael treulio saith blynedd hapus yn y gwaith. Gwerthfawrogaf eich caredigrwydd, eich amynedd a'ch cymorth. Yn ychwanegol at y swyddogion a'r staff presennol, y mae'n rhaid i mi enwi Miss Ann Williams. Bu Ann yn gydweithiwr parod iawn ei chymorth a'i chefnogaeth dros y blynyddoedd.

Diolch i'r Llywyddion y cefais y fraint o gydweithio â hwynt a derbyn o'u cefnogaeth a'u harweiniad cadarn, y Parchg Jill-Hailey Harries a'r Parchg Beti-Wyn James. Hefyd, i'r cyn-drysorydd, Miss Meryl James am ei gwasanaeth ffyddlon a da i'r Undeb ac am ei chyngor a'i chymorth i minnau.

Gwerthfawrogaf ddiwydrwydd a chysondeb gwaith tîm golygyddol *Y Tyst*, Dr Alun Tudur, Mr Alun Lenny a'r Parchg Iwan Llewelyn Jones.

### Gwirfoddolwyr

Wedi llawenhau'n fawr llynedd ym mharodrwydd Mrs Annalyn Davies, Bancyfelin i ddod yn gadeirydd y Cyngor, mae'n ofid gennym, bellach, bod Annalyn wedi gorfod ildio'r gadair oherwydd afiechyd. Gwn ei bod yn cydlawenhau â ni yn ei holynydd, Mrs Jean Lewis, Tre-lech ac fe ddymunwn yn dda iddi.

Pleser yw talu gwrogaeth i holl swyddogion y Cyngor ac aelodau'r Adrannau, i aelodau Pwyllgor Gweinyddol a'r is-bwyllgorau a berthyn i'r Undeb, ynghyd â'r bobl sy'n ein cynrychioli ar wahanol gyrff allanol.

Cydnabyddaf ddyled yr Undeb, a'm dyled innau'n bersonol i Jeff Williams, am ei lywyddiaeth hael a chefnogol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Diolch Jeff a phob dymuniad da i Jill ac i tithau. Rwy'n gwbl ffyddiog y caiff yr Undeb arweinydd glew eto dros y ddwy flynedd nesaf, yn y Parchg Owain Llŷr Evans, a dymuniadau da iddo ef wrth iddo gydio yn y gwaith.

Mae gan ein trysorydd, Geraint Rees, feistrolaeth dda ar ei waith ac y mae ei arweiniad yn amhrisiadwy.

*Bydd yr ail ran yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.

# Gweithgarwch eglwysi ardal Wrecsam

Ers imi symud i'r ardal yn 1991 rwyf wedi rhyfeddu at y cydweithio a'r gweithgarwch amrywiol sy'n digwydd yn eglwysi ardal Wrecsam! Fy mhrofiad cyntaf o hyn oedd cael ymwneud â phrosiect i helpu'r digartref pan oeddwn yn Weithiwr Cenhadol gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ar y pryd roedd galw am loches ar gyfer y digartref a sefydlwyd un mewn cyn-gartref nyrsys ar Ffordd Caer (St John's).

Yn y blynyddoedd diwethaf bu fy ymwneud ag eglwysi Wrecsam yn wirfoddol ac fel cynrychiolydd yr eglwysi Cymraeg ar 'Cydweithio gyda Christ yn Wrecsam/Churches Together in Wrexham'. Drwy fy ymwneud â'r grŵp hwn cefais weld yr amrywiaeth o weithgareddau sydd yn y ddinas newydd hon a hoffwn roi blas o hynny i chi drwy'r erthygl hon. Ond cofiwch – dim ond crafu'r wyneb fydda i oherwydd mae'n amhosib sôn am bopeth!

**Baby Basics Wrecsam**
Bob blwyddyn, mae'r cynllun hwn yn dosbarthu cannoedd o eitemau hanfodol, o ddillad babanod i bethau ymolchi, i fenywod mewn amgylchiadau amrywiol a heriol sy'n disgwyl plentyn. Rhoddir yr eitemau hyn yn hael gan aelodau'r gymuned leol a'u didoli'n ofalus gan dîm ymroddedig o wirfoddolwyr. Wedi'i sefydlu yn 2021 gan Gristion lleol a'i heglwys, mae dros 275 o hamperi wedi'u creu sydd wedi'u pecynnu â gofal a chariad, gan adlewyrchu ymrwymiad yr elusen i werthfawrogi pob mam a phlentyn.

Baby basics

Mae Baby Basics Wrecsam yn gweithio'n agos gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, gan sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth yn gallu cael mynediad hawdd ato. Mae'r sefydliad yn cefnogi grwpiau agored i niwed yn benodol, gan gynnwys mamau yn eu harddegau, ceiswyr lloches, a menywod sy'n dianc rhag cam-drin domestig a masnachu mewn pobl. Mae'r gwasanaeth hanfodol hwn yn hollbwysig er mwyn lleddfu'r baich ariannol a ddaw yn sgil gofalu am faban newydd, gan ganiatáu i deuluoedd ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig: bondio a meithrin eu rhai bach.

**Bugeiliaid y Stryd**
Mae criw o wirfoddolwyr o eglwysi lleol yn mynd allan yng nghanol y ddinas ar nos Sadwrn ac yn cynorthwyo rhai sydd eisiau sgwrs neu help pan fyddant allan yn y clybiau nos a'r tafarnau. Maent yn cyfarfod i weddïo yn yr eglwys newydd sydd wedi ei sefydlu gan yr Eglwys yng Nghymru yn yr hen siop Burton. Maent ar ddyletswydd o 10pm tan 2am, ac yn cydweithio â'r gwasanaethau brys a'r heddlu ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Ar hyn o bryd maent yn edrych am fwy o wirfoddolwyr i ymuno â nhw.

STREET PASTORS

**Banciau Bwyd Trussell Trust**
Rydym i gyd yn gwybod am yr angen am becynnau bwyd yn yr amser yma o gyni ariannol ac mae wyth lleoliad ar draws ardal Wrecsam a'r pentrefi cyfagos lle gall pobl fynd i dderbyn pecynnau bwyd. Rhai ohonynt yw Canolfan Byddin yr Iachawdwriaeth yn Rhos-ddu, Church of the Nazarene yn Llai, a Chapel y Groes/Ebeneser yn ardal Bodhyfryd ynghanol y ddinas (rhwng Asda a Tesco). Diolch ein bod yn medru defnyddio ein hadeiladau i gynorthwyo gwaith pwysig fel hyn sy'n ymateb i anghenion ein cymdeithas.

Wrexham foodbank Banc Bwyd Wrecsam

**Caplaniaeth Carchar y Berwyn**
Pan oeddwn yn gweithio i Wasanaeth Llyfrgell Wrecsam cefais gyfle i ymweld â'r carchar yn y dyddiau cynnar, a'r llyfrgell a'r adran addysg yn benodol. Mae'r gaplaniaeth yn defnyddio rhan o'r adran addysg ar gyfer eu cyfarfodydd ac mae'n galonogol clywed fod niferoedd uchel yn mynychu'r gwasanaethau ar y Sul a hefyd wedi bod yn dilyn cwrs Alpha ac wedi dod yn Gristnogion yn y carchar. Bob Nadolig mae cyfle i ni fel Cristnogion lleol gasglu sanau ar gyfer y carcharorion i'w dosbarthu gan y gaplaniaeth.

**Xplore goes to Church!**
Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Canolfan Wyddoniaeth i Blant Xplore! ac Eglwys St Marc ym Mharc Caia. Maent wedi sicrhau arian drwy fudiad o'r enw Scientists in Congregations sydd wedi ei sefydlu i ddangos i arweinwyr Cristnogol sut y gallant ddefnyddio gwyddoniaeth i helpu eu cenhadaeth, ac ysbrydoli ffydd a gwyddoniaeth ym mywydau plant a phobl ifanc. Mae Canolfan Xplore! yn Stryt Caer gyferbyn â Tŷ Pawb a byddant yn cynnal sesiwn ym Mhabell yr Eglwysi yn ystod yr Eisteddfod.

**Canolfan Byddin yr Iachawdwriaeth, Rhos-ddu**
Mae'r ganolfan hon yn brysur iawn yn gwasanaethu'r gymuned. Mae'n cynnig lle i alw i mewn am gymorth ar gyfer y digartref, teuluoedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

**Llanddysgwyr**
Cafodd Llanddysgwyr ei sefydlu ar lein yn ystod y cyfnod clo gan yr Eglwys Fethodistaidd, gan roi cyfle i rai sy'n dysgu Cymraeg ymarfer yr iaith ac addoli yr un pryd. Bu'n werthfawr iawn i lawer o siaradwyr newydd ac maent wedi bod yn trefnu gweithgareddau wyneb yn wyneb hefyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Agor y Llyfr**
Mae tri thîm Agor y Llyfr yn sir Wrecsam ac rydym yn ymhyfrydu fod POB ysgol cyfrwng Cymraeg yn cael ymweliad gan Agor y Llyfr! Bydd yr ysgol ddiweddaraf i agor yn ardal Borras yn cael ymweliadau o fis Medi ymlaen. Mae dau dîm dan ofal Siwan Jones, Gweithiwr Plant ac Ieuenctid, ac un Wrecsam dan ofal criw o gapeli Cymraeg Wrecsam. Mae hefyd rai grwpiau Saesneg sy'n ymweld ag ysgolion Saesneg yr ardal.



## Gweithgarwch eglwysi ardal Wrecsam

*(parhad o dudalen 3)*



**Eglwys San Silyn (Eglwys y Plwyf), Wrecsam**

Mae'r eglwys yn denu ymwelwyr drwy'r flwyddyn ac yn cynnal pob math o weithgareddau, gan gynnwys nifer o gyngherddau cerddorol ac mae'n un o'r lleoliadau ar gyfer gŵyl Focus Wales. Bydd yr eglwys ar agor bob dydd o 1 tan 4 o'r gloch yn ystod wythnos yr Eisteddfod, a bydd cyfle i ddringo tŵr yr eglwys i fwynhau'r golygfeydd.



**Eglwys Hope Street (Eglwys yng Nghymru)**

Mae hon yn eglwys newydd a agorwyd yn ystod cyfnod y Covid ac yn brosiect cenhadol gan yr Eglwys yng Nghymru i ddenu pobl ieuanc a theuluoedd, ac yn llewyrchus iawn. Mae wedi ei lleoli yn yr hen siop Burton, bron iawn gyferbyn â San Silyn ac mae'n cynnwys caffi sydd ar agor i chi droi i mewn am baned a byrbryd.

**Cadeirlan y Santes Fair (Eglwys Gatholig), Stryt y Rhaglaw**

Mae hon yn eglwys brysur, gyda phobl o sawl cenedl yn mynychu'r gwasanaethau. Yn ystod wythnos yr Eisteddfod bydd croeso cynnes i chi i'r Offeren Gymraeg wedi ei threfnu gan y Cylch Catholig am 6pm ar y nos Iau. Bydd lluniaeth i ddilyn.

**Capel y Groes/Ebeneser (rhwng Tesco ac Asda)**

Mae hwn wedi bod yn lle poblogaidd i gorau ymarfer wrth iddynt baratoi at yr Eisteddfod, a bydd rhagbrofion yn cael eu cynnal yno ar rai dyddiau yn ystod yr Eisteddfod. Gweler y manylion yn *Rhaglen y Dydd*. Mae'r Eglwys Bresbyteraidd a'r Annibynwyr yn addoli yma ar y Sul dan weinidogaeth y Parchedig Aled Lewis Evans ac yn cydweithio'n hapus. Defnyddir yr adeilad amlbwrpas drwy'r wythnos ar gyfer y Banc Bwyd, y Groes Goch a gwaith gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid, grwpiau trwm eu clyw, Merched y Wawr a chorau amrywiol. Maent hefyd yn cyflogi gweithiwr plant ac ieuenctid un diwrnod yr wythnos, sef Siwan Jones.



**Yr Eglwys Fethodistaidd – Capel Jerwsalem, Pen-y-maes Avenue**

Wedi cyfnod yn cyfarfod yng Nghapel y Groes/Ebeneser mae'r Tad Deiniol o'r Eglwys Uniongred yn cynnal gwasanaethau yma ar ddydd Sadwrn ar gyfer myfyrwyr a rhai sydd yn yr ardal o Wcráin. Maent yn gyfarfodydd poblogaidd iawn ac mae'n dda ein bod yn medru defnyddio ein hadeiladau i helpu yn y modd yma. Gweinidog Jerwsalem yw'r Parchedig Marc Morgan, a bydd ef a Margaret ei wraig yn gofalu am Babell yr Eglwysi yn yr Eisteddfod.

**Eglwys y Bedyddwyr, Pen-y-bryn, Wrecsam**

Mae'r gynulleidfa hon yn ddwyieithog bellach ac yn addoli yn y capel Efengylaidd, Borras, yn y prynhawn oherwydd problemau diogelwch gyda'r adeilad ym Mhen-y-bryn. Gweinidog yr eglwys yw'r Parchedig Rhun Murphy.

**Cydweithio gyda Christ yn Wrecsam/ Christians Together in Wrexham**

Rydym yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael o leiaf dri gwasanaeth undebol y flwyddyn: Wythnos Weddi am Undod Cristnogol, Cymorth Cristnogol ac un ym mis Tachwedd. Rydym hefyd wedi bod yn cynnal gorymdaith drwy ganol Wrecsam ar ddydd Gwener y Groglith, ac yn cael cyfle i adrodd stori'r Pasg a chanu emynau gyda Band Byddin yr Iachawdwriaeth yn arwain. Rydym hefyd wedi trefnu ambell ddigwyddiad, megis gwahodd cwmni theatr Gristnogol i ddod i berfformio yn Eglwys San Silyn. Yn ddiweddar cawsom ddrama am hanes Corrie Ten Boom, a chafwyd perfformiad o'r ddrama mewn ysgolion ac yng ngharchar y Berwyn.

Diolch i Dduw am ei ffyddlondeb ac am y nerth a'r awydd i gydweithio yn ardal Wrecsam. Gweddïwn y byddwch yn teimlo brwdfrydedd a chroeso'r eglwysi yn ystod yr Eisteddfod. Cofiwch ymweld â Phabell yr Eglwysi ar faes yr Eisteddfod, lle bydd croeso cynnes yn eich aros!

*Marian Lloyd Jones*

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

**Chwilio am banad tra yn y Sioe yn Llanelwedd?**

**Bydd pabell yr Eglwysi yno i'ch croesawu - gyda gwaith plant, defosiwn dyddiol, stondin lyfrau ac arddangosfeydd.**

Byddwn ar Res D yn ôl ein harfer - rhif 413. Galwch i'n gweld am banad a chroeso.

PANED A THEISEN GRI
AM DDIM
Croeso cynnes i bawb

CAFC RWAS

# Credo Nicea

**Credwn**

Dros y chwe wythnos nesaf bydd gennym gyfres o astudiaethau'n seiliedig ar Gredo Nicea, gyda myfyrdodau wedi eu paratoi gan gyfeillion ar draws y byd sy'n rhan o waith yr United Society Partners in the Gospel (USPG). Cyfieithwyd y sesiynau hyn i'r Gymraeg gan y Parch. Noel Davies, Abertawe, a diolch iddo am ei waith.

Daw'r dyfyniadau Beiblaidd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig (2004) a daw'r dyfyniadau o Gredo Nicea o'r fersiwn Cymraeg yn Llyfr Gweddi yr Eglwys yng Nghymru.

Dros y chwe wythnos nesaf, byddwn yn dilyn y themâu canlynol:

Sesiwn un – Cread Duw
Sesiwn dau – Ymgnawdoliad Iesu Grist
Sesiwn tri – Iachawdwriaeth y Groes
Sesiwn pedwar – Ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân
Sesiwn pump – Yr Eglwys ac Undeb
Sesiwn chwech – Gobaith yr Atgyfodiad

Mae 2025 yn flwyddyn arwyddocaol wrth i ni ddynodi 1700 mlynedd ers y Cyngor Ecwmenaidd byd-eang cyntaf. Darparwyd yr astudiaethau hyn i'ch cymell, mewn partneriaeth â Christnogion eraill, i fyfyrio'n weddigar ar arwyddocâd Cyngor Nicea ac effaith ffurfiannol ei etifeddiaeth ar y ffydd Gristnogol.

Yr Ymerawdwr Cystennin a gynullodd y Cyngor yn 325 OC, a chafodd ddylanwad dwfn ar athrawiaeth Gristnogol. Ond roedd yn foment hefyd pan fu i ffydd a grym ymerodraethol ddylanwadu ar ei gilydd mewn ffyrdd cymhleth. Er mai amcan Credo Nicea oedd uno'r Eglwys a sicrhau fod i natur ddwyfol Crist sylfaen gadarn, rhaid cydnabod cyd-destun hanesyddol yr ymdrech hon, sef fframwaith yr ymerodraeth Rufeinig.

Galwyd Cyngor Nicea i ddatrys yr anghydfod Ariaidd oedd ynglŷn â gwir natur Crist – a oedd yn wir Dduw AC yn wir ddyn? – ac i sefydlogi'r ymerodraeth drwy gydlyniad crefyddol. Cyfyd hyn gwestiynau pwysig am y modd y bu i rym ymerodraethol ddylanwadu ar y penderfyniadau a wnaeth y Cyngor. Roedd undeb yn nod gwleidyddol yn gymaint â nod diwinyddol. Er bod y credo wedi dwyn Cristnogion ynghyd o gwmpas credoau cyffredin, rhaid i ni fod yn ymwybodol o beryglon credu fod undeb ac unffurfiaeth yn gyfystyr. Pan mae ffydd a grym gwleidyddol yn mynd ynghlwm yn ei gilydd, mae perygl bob amser y bydd amrywiaeth yn cael ei atal yn enw trefn.

Wrth i ni goffáu pen-blwydd Cyngor Nicea, gadewch i ni feddwl a gweddïo am eglwys sy'n cofleidio undeb mewn amrywiaeth, ac yn cydnabod cyfoeth mynegiadau gwahanol o'r ffydd heb geisio unffurfiaeth. Mewn cyd-destun byd-eang, lle mae'r eglwys wedi ei defnyddio'n aml fel offeryn gwladychu a rheoli, fe'n gelwir i fyfyrio'n feirniadol ar ein hanes a cheisio ffurf ar undeb sy'n parchu amrywiaeth diwylliannol a diwinyddol. Gobeithiwn y bydd y canllaw astudio hwn yn ennyn myfyrdod, trafodaeth a gweddi gyda golwg ar eglwys sy'n gwrthod temtasiwn cydffurfiaeth ymerodrol ond yn hytrach yn ymgorffori neges Crist o gariad, cyfiawnder a chynhwysedd i'r greadigaeth gyfan.

*Y Parchg Ganon Ddr Peniel Rajkumar*
*Cyfarwyddwr Cenhadaeth Fyd-eang a Diwinyddiaeth Fyd-eang USPG*

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 20 Gorffennaf, am 7:30yb a 2:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Manon Ceridwen James, Abergele

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 20 Gorffennaf, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Aled Davies ac Owain Davies ar drothwy'r Sioe Fawr yn Llanelwedd




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru)

# Eglwysi Ewrop yn Budapest – *parhad*

dros bolisïau lloches cyfiawn a dyngarol, gan ddatgan yn eglur eu gwrthwynebiadau ar reolau ffiniau, cadw dan glo annynol, a gwaharddiadau cymorth dyngarol. Trafodwyd integreiddio cymdeithasol a chydlyniant crefyddol a diwylliannol; materion deialog rhyng-ffydd, tensiynau ynghylch hunaniaeth grefyddol a helpu cynulleidfaoedd lleol i ymateb i senoffobia, hiliaeth, a pholareiddio gwleidyddol. Sylweddolwyd mor aml mae eglwysi'n gorfod cerdded llinell denau rhwng croesawu'r dieithryn a rheoli ofnau o fewn eu cynulleidfaoedd eu hunain.

Bu'r Esgob Sándor Zán Fábián o Eglwys Ddiwygiedig Gorllewin Wcráin yn rhannu ei brofiadau; ar-lein gan na chafodd sicrwydd ei bod yn ddiogel iddo deithio i Hwngari. Ar yr un llaw adroddodd am gynnydd aelodaeth eglwysig – derbyniodd bron 400 o bobl ifanc i'r eglwys ar Sul yr Esgyniad ac mae gwersylloedd haf yr eglwys eisoes yn orlawn. Ar y llaw arall, nododd y rheolau llym sydd bellach yn bodoli yn y wlad, yn cyfyngu ar fywydau cynifer, ac yn atgoffa'r genhedlaeth hŷn o fywyd yn ystod cyfnod Comiwnyddiaeth. Yn ddiweddar, deddfwyd nad yw bod yn Weinidog y Gair bellach yn ddigonol i osgoi derbyn gwŷs i ymuno â'r lluoedd arfog.

Anodd iawn bu'r drafodaeth am Israel a Gaza, yn arbennig gan iddi ddigwydd ar y diwrnod yn dilyn ymosodiadau awyr rhagataliol Israel ar gyfleusterau niwclear Iran, a'i safleoedd taflegrau ac arweinyddiaeth filwrol. Trwy dystiolaeth Llywydd WCRC, y Parchedig Najla Kassab, sy'n weinidog yn Beirut, cawsom ddisgrifiad byw o'r dioddefaint sy'n digwydd yn y rhanbarth. Clywsom hefyd oddi wrth Lywydd WCRC Ewrop, Martina



*Llywydd cyfredol WCRC – Ewrop – Martina Wasserloos*

Wasserloos, am y bartneriaeth sydd wedi datblygu rhwng merched Eglwysi Diwygiedig Ewrop, trwy WCRC Ewrop, a Christnogion Israel, Gaza a gwledydd eraill y Dwyrain Canol.

### Llygedyn o obaith

Yng nghanol hyn i gyd, roedd yna lygedyn o obaith gyda bron pob gwlad a gynrychiolwyd yn y cyfarfod yn adrodd am gynnydd yn niddordeb yr ifanc yn y ffydd. Nifer o eglwysi wedi cynyddu mewn aelodaeth dros y 12 mis diwethaf, a gwledydd megis yr Almaen, yr Iseldiroedd, Portiwgal a Sweden yn sôn am y diwygiad tawel sy'n digwydd yn eu plith. Hwythau, fel ninnau yng ngwledydd Prydain yn gweld plannu eglwysi newydd. Cefais gyfle i rannu peth o'r hyn rydym ninnau yn ei weld yng ngwledydd Prydain gan gyfeirio at adroddiadau diweddaraf rhai o'n henwadau ac undebau, a sôn am yr hyn a welwn yn digwydd yn ein prifysgolion.



*Llywydd WCRC – Najla Kassab yn sgwrsio â Hefin*

### Dathlu 150 mlynedd

Cyflwynwyd crynodeb hynod o ddiddorol gan y Parchedig Setri Nyomi, Ysgrifennydd Cyffredinol dros dro WCRC, ar hanes Eciwmeniaeth Ddiwygiedig. Bu'n sôn am wreiddiau'r Cymundeb – o'i dechreuad yn 1875 pan sefydlwyd mewn cyfarfod yn Llundain, Cynghrair yr Eglwysi Diwygiedig ledled y Byd sy'n dal y System Bresbyteraidd (ARCWPS) ac yna 1891 pan sefydlwyd y Cyngor Cynulleidfaol Rhyngwladol (ICC). Yna, yn 1946, trefnwyd sefydlu Cyngor Eciwmenaidd Diwygiedig (REC) ac yn 1970, unodd yr ARCWPS â'r ICC i ffurfio Cynghrair Eglwysi Diwygiedig y Byd (WARC). Yn 2010, mewn Cyngor y cafodd Dr Geraint Tudur a minnau'r fraint o fod ynddo, yn Grand Rapids UDA, daeth WARC a REC ynghyd i ffurfio Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (WCRC). Mae fy chwaer, Bethan, a minnau yn edrych ymlaen at gynrychioli'r Undeb mewn oedfa arbennig yn Llundain ar 12 Gorffennaf yn nodi 150 mlwyddiant sefydlu'r dechreuadau hyn.

### Tystiolaethu

Treuliwyd llawer o amser yn canolbwyntio ar dystiolaethu a sut i dystiolaethu – paratoad ar gyfer Cymanfa Gyffredinol WCRC yn Chiang Mai, Gwlad Thai ym mis Hydref, sydd â'r thema, 'Dyfalbarhau mewn Tystiolaeth', a lle bydd y Parchedig Beti-Wyn James a minnau yn cynrychioli'r Undeb. Efallai mai'r un peth a erys yn fy nghof o'r trafodaethau hyn yw'r cysyniad o ddiriaethu neu 'goncrideiddio' (*concretisation*) egwyddorion yr Efengyl. Byrdwn y drafodaeth oedd bod rhaid i'n heglwysi diriaethu egwyddorion ein ffydd, hynny yw, rhaid eu gwneud yn rhywbeth concrit, real a phenodol, rhaid cloddio pydewau newydd (2 Cronicl 26:10). Yr her yw ein bod mor aml yn cam-ddiriaethu, hynny yw, ymroi i fod yn ganolfannau elusen a chymuned, neu ganolfannau gwyrdd ond yn anghofio sail a ffynhonnell y dystiolaeth honno. Rhaid i mi gyfaddef i hyn gyffwrdd â mi gan fy mod yn gofidio'n aml pan glywaf sôn am eglwysi gwyrdd, mai mewn modd 'seciwlar' y disgrifir y gwaith yn hytrach na'i ddiffinio yng nghyd-destun Duw'r Creawdwr a Chynhaliwr Bywyd.

Terfynwyd ein trafodaethau a'n cyfarfod mewn Oedfa Gymun. Un o emynau'r gwasanaeth oedd 'Von guten Mächten' a ysgrifennwyd gan Dietrich Bonhoeffer ym 1944 tra roedd yn garcharor oherwydd ei wrthwynebiad i'r Natsïaid. Dyma ei destun diwinyddol olaf cyn iddo gael ei ddienyddio ar 9 Ebrill 1945. Ymunais am y tro cyntaf yng nghyfarfodydd WCRC Ewrop 'nôl yn 2017; bob tro byddaf yn dychwelyd ohonynt teimlaf i mi dderbyn bendith ac ysbrydoliaeth o fod ymysg ffrindiau ffydd sy'n wynebu rhychwant o heriau a gofidiau ond sy'n dal i dderbyn nawdd a nerth Cariad Duw. Diolch i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am agor y drws i mi.

**Hefin Jones**

# Golygyddol

## Eglwys agored

Pur anaml yr ydw i'n eistedd mewn cynulleidfa i addoli. Ond mi ges i'r cyfle hwnnw'n ddiweddar ar fore Sul yn eglwys Clarence Park, Weston-super-Mare. Pen-blwydd 'arbennig' un o'r aelodau oedd y rheswm pam ein bod ni yn yr ardal, ac mae'r aelod hynny'n digwydd bod yn ffrind personol i ninnau, a'i dymuniad hi oedd cael mynd i addoli yn ei chapel, yn ôl ei harfer.

Ar wahân i'w theulu hi, doedd 'na fawr neb arall yn gwybod mai gweinidog oeddwn i, ac am hynny mi ges eistedd yn rhan o'r gynulleidfa'n gwbl gyfforddus.



### Dychymyg

Ar ôl dod o'r oedfa mi feddyliais wrthyf fy hun fel hyn: pe bawn i'n berson diarth i gapel ac addoliad, sut fath o groeso oedd yr un a gefais i y bore hwnnw, ac a fyddai'r croeso wedi bod yn un digon atyniadol (heb fynd dros ben llestri) i 'nhynnu fi yn ôl yno?

### Y croeso

Wrth y drws yr oedd yna bobl yn sefyll yn wên o glust i glust, a'r sylw cyntaf oedd (yn Saesneg): 'Mor braf eich gweld chi ... Croeso i chi ... O ble 'dach chi'n dod?' Hyfryd! Ac wedi hynny mi ddywedwyd wrthym fod croeso i ni eistedd yn unrhyw ran o'r capel (a gyda llaw, cadeiriau esmwyth oedd yno, ac o ganlyniad gofod hyblyg). Mae yna rai capeli yng Nghymru y medrwch chi fynd i mewn ac allan ohonyn nhw – hyd yn oed fel pregethwr – heb i neb ddweud na bw na be wrthych heb sôn am roi gair distaw o werthfawrogiad!

### Yr oedfa ei hun

O ran cynulleidfa, doedd hi ddim yn enfawr (jest rhag ofn i ni feddwl bod hi'n fan gwyn, man draw mewn lleoedd eraill). Oedd, mi roedd hi'n eithaf, tua 40 fyddwn i'n meddwl. Ond mi roedd yna gyfuniad da o ran oed yno, a phwyslais ar bawb nid jest ar y plant a'r ieuenctid, fel sy'n ffasiynol i wneud mewn ambell i le, ond ar bob oed. Roedd y swyddogion wedi paratoi taflen liwgar yn amlinellu trefn yr oedfa, ac mi roedd yna rai o'r gynulleidfa'n cymryd rhan yn y darlleniadau a'r gweddïau. Ac mi roedd yna bregeth, ac un dda oedd hi hefyd, oedd yn ein rhybuddio nad *comfort zone* ydi'r eglwys i fod ond lle i ni gael ein herio, a'r herio hwnnw'n dod o gyfeiriad Iesu Grist. Fydda i'n teimlo weithiau yng Nghymru ein bod ni'n dyfynnu pawb a phopeth, yn feirdd a llenorion, heb sylweddoli bod Iesu Grist wedi dweud yr un pethau'n union ugain canrif yn ôl, a pham, wedyn bod yn rhaid chwilio tu allan i'r Beibl am ddarlleniadau? Mae Gair Duw yn rymus. Beth bynnag, yn ôl â ni i Clarence Park, ac oedd mi roedd y bregeth yn un heriol, a chwbl syml fel bod y person ieuengaf yn yr oedfa wedi'i deall hi. Ar ben y cwbl roedd hi'n berthnasol heddiw, ac yn ein gwneud ni i ddod a'r byd fel y mae i gysgod Gair Duw, ac i fod yn atebol i Dduw ei hun.

Yn y capel mae yna bulpud go uchel, ac mor falch ro'n i o weld y pregethwr yn dod at y gynulleidfa i siarad. Gyda llaw, doedd yna ddim sedd fawr yno – diolch byth – ac o ganlyniad roedd pawb yn medru symud o'r llawr i'r blaen ac yn ôl yn gwbl ddidrafferth.

### Yr eglwys agored

Mae yna lawer o sôn y dyddiau yma am yr 'Eglwys Agored' (Open Church). I mi roedd yr eglwys hon yn ymgorfforiad o hynny. Ar agor bob Sul, heb wneud y lol yma o beidio â chynnal ym mis Awst gan fod pawb ar eu gwyliau, a heb wneud unrhyw drefniant ag eglwysi cyfagos i gydaddoli. Roedd hi ar agor yn ystod yr wythnos i wahanol weithgareddau; roedd hi hefyd ar agor yn yr ystyr bod Iesu'n agor drws calon yr aelodau i fod yn Eglwys Agored lawn.

A wyddoch chi be? Dwi'n edrych ymlaen at fynd yn ôl yno, nid am ei bod hi'n berffaith. Duw a'n gwaredo os meddyliwn ni bod unrhyw eglwys yn berffaith, ond am ei bod hi'n agored, ac mae yna fyd o wahaniaeth.

**Iwan Llewelyn**

# Paned arall?

Pan daenai Nain liain les,
Taenai Nain fel brenhines.

Ar bnawn dydd Sadwrn, 17 Mai, roedd canolfan gymunedol Yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd yn llawn o fyrddau y byddai Nain wedi bod yn falch ohonyn nhw. Pob un wedi ei osod gyda'r llestri te gorau yn barod ar gyfer Te Cymreig, sef ymdrech eglwys Minny Street i godi arian ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol.

Beth yw Te Cymreig, meddech chi? Wel, sgonau gyda hufen a jam, pice ar y maen a bara brith a faint a fynnech o de neu goffi. Drwy'r prynhawn bu'r neuadd yn llawn o ffyddloniaid yr achos a ffrindiau o'r ieuengaf, 6 wythnos i'r hynaf, na welodd 90 blwydd eto. Neuadd yn llawn chwerthin a sgwrsio, yn llawn cyfeillgarwch a *koinonia*. Ac yn goron ar y cyfan, codwyd dros £400 tuag at achos sy'n haeddu ein cefnogaeth gyson.

**Elinor Patchell**





## GOFALAETH

**Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf**
**Bethel, Llanddewi Felffre**
**a Triniti, Llanboidy**

Gwahoddir ymholiadau a cheisiadau oddi wrth weinidogion ordeiniedig a myfyrwyr sydd â diddordeb i weinidogaethu'n rhan amser yn yr ofalaeth hon. Byddwn yn dilyn canllawiau Undeb yr Annibynwyr.

Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion erbyn Gorffennaf 31ain 2025.

**Meryl James**

**E-bost:**
meryljames534@btinternet.com
**Ffôn:**(01994) 240350
**Ffôn symudol:** 07977 553796

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr 3

*Adroddiad pellach o'r hyn ddigwyddodd.*

## Cyfarfod Heddwch

Roedd naws gwahanol i'r cyfarfod hwn eleni, o dan lywyddiaeth Guto Prys ap Gwynfor, gan mai gwraig ifanc o Gristion o Lain Gorllewinol Palesteina oedd y siaradwr gwadd. Gofynnodd i'r sesiwn beidio â chael ei ddarlledu oherwydd ei hofn o'r hyn allai ddigwydd iddi hi neu ei theulu, yn sgil yr hyn roedd am rannu gyda ni. Siaradodd yn ingol am yr hyn oedd yn digwydd i'w chenedl dan law Gwladwriaeth Israel. Nid yw hyn ond y diweddaraf o gyfres o ymerodraethau sydd wedi ceisio meddiannu a choloneiddio eu tiroedd. Galwai yr hyn sydd yn digwydd nawr yn hil-laddiad gan fod 90% o boblogaeth Gaza wedi gorfod gadael a 61 mil wedi eu lladd. Y mae milwyr Israel yn ymddwyn yn ffiaidd a chreulon gan gynorthwyo Iddewon i feddiannu'r tir gan symud Palesteiniad oddi ar eu heiddo. Dywedodd fod yr hyn oll sy'n digwydd yn herio ei ffydd mewn Duw cariad a'i bod fwy nac unwaith wedi ei themtio i gefnu. Fe gafodd ei thad ei garcharu am dros ddwy flynedd heb unrhyw gyhuddiad yn ei erbyn, dim mwy na'i fod yn Balestiniad. Ni allai ddeall pam nad oeddem ni yn ddig tuag at yr hyn sy'n digwydd ac yn mynegi'r dicter hwnnw tuag at ein gwleidyddion a'n llywodraeth.

Pan orffennodd ei chyflwyniad emosiynol, bu tawelwch llethol yn yr ystafell. Nid wyf wedi profi hynny o'r blaen ar ddiwedd anerchiad. Nid oeddem yn gwybod sut i ymateb. Roedd rhai yn wylo dagrau hallt o dristwch a phawb ohonom yn teimlo rhwystredigaeth fawr am yr hyn sy'n digwydd a dioddefaint y siaradwr a'i chenedl. Yr hyn dorrodd y tawelwch oedd i Siân Meinir ruthro i'r tu blaen a chofleidio'r siaradwraig mewn cydymdeimlad. Fe erys hyn yn hir yn ein cof. Ond gobeithio ei fod wedi ein hargyhoeddi o'r newydd o'r angen i weithio dros gyfiawnder ac i sefyll o blaid y gwan a'r gorthrymedig.

## Oedfa o fawl

Wedi egwyl a swper blasus gan gogyddion ardderchog Nant Gwrtheyrn ymlwybrasom ling di long draw i'r capel i addoli'r Arglwydd. Roedd y capel yn llawn ar gyfer yr achlysur. Cafwyd croeso cynnes a galwad i addoli gan y llywydd Jeff Williams; darllenwyd o Efengyl Mathew pennod 14 adnodau 22–33 gan Ronald Williams, Caernarfon; gweddïwyd gan Jeff Williams a gwnaethpwyd casgliad er budd Cymorth Cristnogol. Oherwydd anhwylder nid oedd Glenys Jones, Pwllheli, yn gallu bod yn bresennol i offrymu'r weddi o goffâd, ond camodd Iwan Llywelyn Jones Porthmadog, i'r adwy. Coffawyd yn ddiolchgar a thyner, y Parchedigion, Gwynn Bowyer, Menna Brown, Jim Clarke, T. J. Irfon Evans, Irfon Iorwerth Jones, T. Howell Mudd, Islwyn Selby, Dyrinos Thomas a Wynford Thomas. Dymunwyd yn dda gan y Llywydd i'r gweinidogion hynny a ymddeolodd sef, Brenig Davies, Gwyn Elfyn Jones, Trefor Jones-Morris, Christopher Owen a Gethin Rhys a chroesawyd un gweinidog newydd atom sef Helen Wyn Jones. Cyflwynodd Carwyn Siddall y rhai hynny a dderbyniodd dystysgrifau trwy hyfforddiant yr Annibynwyr.

## Agor y Gair

Yn dilyn y cyflwyniadau, pregethwyd o'r gair gan Tom Evans. Y llinyn arian a redai trwy'r bregeth oedd anogaeth Iesu i'r disgyblion, i 'fynd i'r cwch a hwylio o'i flaen i'r ochr draw ...' (Math. 14:22) Trwy gyfrwng nifer o straeon a phrofiadau fe'n hanogodd ni fel Cristnogion i fentro ar air yr Iesu gan fod yn barod i fynd i dir anghyfarwydd. Nid gwaith rhwydd yw hyn mewn oes sydd yn ddi-hid o bethau Duw. Cyfeiriodd at y dyfyniad cofiadwy fod Cristnogaeth i 'comfort the disturbed and disturb the comfortable,' dyfyniad a dadogir i nifer o unigolion. Yr her inni yn y bregeth oedd nad ydym i aros yn ein hunfan yn gyffyrddus a bodlon ond yn hytrach i fynd allan 'i'r ochr draw' gan garu ein cyd-ddynion a gwasanaethu ein cymuned. Y mae hyn yn cymryd gweledigaeth, ymdrech a dychymyg proffwydol.

A bu bore a bu hwyr yr ail ddydd.

*Bydd yr adroddiad olaf o gyfarfodydd yr Undeb yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.







*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*